**COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU**

**CYFARFOD O'R PWYLLGOR ARCHWILIO A SICRWYDD RISG A GYNHALIWYD DDYDD MERCHER 11 CHWEFROR 2015 YN NHŶ HASTINGS (10:30 – 12:30)**

**Aelodau CFfDLC yn Bresennol:** Ceri Stradling (Cadeirydd), David Powell (Aelod), Julie James (Aelod Annibynnol)

**Cynrychiolydd Grant Thornton yn Bresennol:** John Golding

**Cynrychiolydd Deloitte yn Bresennol:** Kath Rankin

**Cynrychiolydd James de Frias yn Bresennol:** Stewart Dethridge

**Swyddogion CFfDLC yn Bresennol:** Steve Halsall (Prif Weithredwr), Matthew Redmond (Dirprwy Brif Weithredwr), David Carr (Rheolwr Cyllid)

**1. Ymddiheuriadau am Absenoldeb**

1.1 Rhoddodd y Cadeirydd ymddiheuriadau ar ran Lisa James (Llywodraeth Cymru), Ann-Marie Harkin (Swyddfa Archwilio Cymru) a Rachel Williams (CFfDLC).

**2. Datganiadau o Fuddiant**

2.1 Ni wnaed unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

**3. Cofnodion y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 10 Tachwedd 2014.**

3.1 **Penderfynwyd** mabwysiadu cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor a gynhaliwyd ar 10 Tachwedd 2014.

**4. Materion yn Codi o'r Cyfarfod Blaenorol.**

4.1 Nododd y Pwyllgor fod bron yr holl eitemau a oedd yn codi o'r cyfarfod blaenorol yn rhai i ddelio â nhw fel eitemau ar yr agenda nes ymlaen yn y cyfarfod. Yr eithriad oedd diweddariad ar yr adolygiad o asedau sefydlog a storfeydd. Nodwyd bod yr eitemau o'r storfeydd y canfuwyd eu bod ar goll o'r rhestr storfeydd bellach wedi'u hychwanegu.

**5. Cynllun Gwaith y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg**

5.1 Adroddwyd bod y Cynllun Gwaith wedi'i ddiweddaru i gynnwys yr adolygiad o'r Gofrestr Risg Pensiynau ym mhob cyfarfod gwanwyn, a phrawf Cynllun Parhad Busnes CFfDLC ym mhob cyfarfod haf. Cymeradwyodd y Pwyllgor y Cynllun Gwaith diwygiedig ar gyfer 2014-15.

## 6. Archwilio Allanol: Cynllun Archwilio 2014-15.

6.1 Esboniodd John Golding fod y Cynllun Archwilio ar gyfer 2014-15 yn amlinellu'r gwaith archwilio arfaethedig ar ddatganiadau ariannol 2014-15. Roedd yn cynnwys rhwymedigaethau'r Archwilydd Cyffredinol a'r dull archwilio, tasgau ac allbynnau allweddol, a lefel perthnasedd ar gyfer adrodd am gamddatganiadau. Nodwyd bod y ffioedd archwilio ar gyfer archwiliad 2014-15 yr un fath â 2013-14.

6.2 Nodwyd cyfrifoldebau priodol yr Archwilydd Cyffredinol a CFfDLC yn Atodiad 1. Roedd Atodiad 2 yn nodi'r prif risgiau archwilio a allai arwain at gamddatganiadau perthnasol yn y cyfrifon ac a fynnodd ystyriaeth arbennig yn ystod yr archwiliad. Dyma oedd y risgiau:

- Risg rheolwyr yn diystyru rheolaethau. Ymateb yr archwilwyr fyddai profi cofnodion dyddlyfrau ac addasiadau a wnaed i'r datganiadau ariannol, adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu a gwirio trafodion arwyddocaol;
- Risg camddatganiad perthnasol yn sgil twyll adnabod refeniw. Ymateb yr archwilwyr fyddai adolygu a phrofi polisïau adnabod refeniw;
- Yr ansicrwydd ynghylch rôl CFfDLC yn y dyfodol yng ngolau adroddiad y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus. Ymateb yr archwilwyr fyddai adolygu gwybodaeth a sylwadau rheolwyr er mwyn sicrhau bod y datgeliadau priodol ar yr effaith yn cael eu gwneud yn y datganiadau ariannol.

6.3 Rhoddodd Mr Halsall ddiweddariad byr i'r Pwyllgor ar y sefyllfa bresennol ynglŷn ag ymatebion a thystiolaeth CFfDLC mewn perthynas â'r Papur Gwyn a'r Bil Llywodraeth Leol (Cymru). Rhagwelwyd y byddai'r Bil yn derbyn cydsyniad brenhinol ym mis Tachwedd 2015 ac y byddai CFfDLC yn dechrau ei arolwg cyntaf yn gynnar yn 2016. Yn y cyfamser, byddai CFfDLC yn gweithio ar gynllunio senarios ar gyfer deilliannau posibl a newidiadau i lywodraeth leol.

6.4 Dywedodd Mr Golding fod y dyddiadau ar gyfer cyflawni'r gwaith archwilio heb eu cytuno eto, ond y disgwyl oedd y byddent ar ddechrau mis Mehefin 2015. Ychwanegodd nad oedd yn disgwyl unrhyw newidiadau sylweddol i fformat y cyfrifon ar gyfer 2014-15.

[*Gadawodd Stewart Dethridge (James de Frias) y cyfarfod*]

## 7. Archwilio Mewnol: Cylch Gorchwyl Archwiliad Diwedd Blwyddyn 2014-15.

7.1 Adroddodd Kath Rankin fod y Cylch Gorchwyl yn ymdrin ag ail ran gwaith archwilio mewnol 2014-15 a oedd i'w gyflawni yn ystod 17 i 20 Mawrth 2015. Y meysydd arfaethedig ar gyfer gwaith archwilio oedd Arolygon CFfDLC, Prynu, Symiau Taladwy a Chaffael ac Arian Mân.

7.2 Byddai'r archwiliad o Arolygon CFfDLC yn canolbwyntio ar waith arolygon cymunedol. Er mai dim ond dau arolwg oedd wedi'u dechrau gan y CFfDLC ers i'r gweithdrefnau newydd gael eu rhoi ar waith, ystyriwyd y byddai hyn yn rhoi syniad da o ba mor effeithiol oeddent. Byddai hefyd yn galluogi archwilwyr i asesu

cynnydd a wnaed ar argymhellion archwilio blaenorol ar gyfer gwelliannau i'r gweithdrefnau.

## 8. Asesiad Blynyddol o'r Gwasanaethau Archwilio Mewnol.

8.1 Adroddwyd bod holiadur asesu archwilwyr mewnol wedi'i ddrafftio i ddarparu modd i CFfDLC allu cynnal asesiad mewnol blynyddol o wasanaethau archwilio mewnol. Rhannwyd yr holiadur rhwng cwestiynau i'w hateb gan Swyddog Cyfrifyddu CFfDLC a chwestiynau i'w hateb gan aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Roedd copi o Fframwaith Asesu Ansawdd Archwilio Mewnol Trysorlys Ei Mawrhydi wedi'i gynnwys er gwybodaeth, fodd bynnag, ystyriwyd y byddai'r cynnwys yn rhy fanwl i gorff bach fel CFfDLC.

8.2 Gwnaed cynigion ar gyfer nifer o gwestiynau ychwanegol a **chytunwyd** y byddai'r rhain yn cael eu cynnwys yn yr holiadur asesu a'u cylchredeg i aelodau'r Pwyllgor.
**Gweithredu:** Rheolwr Cyllid **Erbyn:** 28 Chwefror 2015

8.3 Dywedodd John Golding fod rhan o'r archwiliad allanol yn ystyried effeithiolrwydd archwilio mewnol a byddai'n adrodd am unrhyw feysydd lle'r ystyriai ei fod yn annigonol. Dywedodd Kath Rankin y byddai Deloitte yn gwneud eu hunanasesiad eu hunain, a **chytunwyd** y byddai'r gwaith o gwblhau holiadur CFfDLC yn cael ei ohirio hyd nes bod hwnnw ar gael i'w ystyried.
**Gweithredu:** Rheolwr Cyllid **Erbyn:** 28 Chwefror 2015

8.4 **Cytunwyd** y byddai aelodau'r pwyllgor yn cyfarfod i drafod a chwblhau'r holiadur yn ystod egwyl ginio cyfarfod CFfDLC i'w gynnal ar 16 Ebrill 2015.

## 9. Argymhellion Archwilio – Adroddiad Cynnydd.

9.1 Nododd y Pwyllgor y cynnydd ar argymhellion yr archwilwyr mewnol a oedd heb eu cyflawni eto. Yr unig argymhelliad a oedd yn dal heb ei gyflawni ers mwy na blwyddyn oedd argymhelliad 2012-13, sef bod CFfDLC yn rhoi ei restr wirio arolygon ar brawf o ran effeithiolrwydd. Roedd gweithredu'r argymhelliad hwn yn dibynnu ar ymgymryd â gwaith arolwg digonol na fyddai'n bosibl hyd at ddechrau'r rhaglen arolygon newydd.

9.2 O'r argymhellion sy'n weddill o 2013-14, roedd dau'n ymwneud â threfniadau Rheoli Cofnodion CFfDLC a byddai'r Rheolwr Cymorth Busnes yn delio â hynny. Roedd y dyddiad terfyn ar gyfer gweithredu wedi'i bennu ar 31 Ionawr 2015 yn wreiddiol, ond nid oedd modd cyflawni hyn oherwydd y baich gwaith trwm ar y Rheolwr Cymorth Busnes yn ddiweddar wrth ymgymryd â nifer o ymarferiadau tendro. Roedd dyddiad terfyn newydd ar gyfer gweithredu'r argymhellion hyn wedi'i bennu, sef 30 Mai 2015, a nodwyd a **chytunwyd** hyn.

9.3 Cododd archwiliad canol blwyddyn 2014-15 chwech o argymhellion, ac roedd pedwar ohonynt wedi'u rhoi ar waith.

## 10. Hunanasesiad y Pwyllgor Archwilio 2014-15.

10.1 Adroddwyd bod canlyniadau holiaduron yr hunanasesiad a lenwyd ar gyfer 2014-15 yn awgrymu'n gryf fod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg wedi dod yn agos at gydymffurfio'n llawn ag arfer da.

10.2 **Cytunwyd** y dylai'r holiadur gael ei ddiwygio i ail-eirio'r cwestiwn hyfforddiant, a hefyd bod cwestiwn newydd yn cael ei ychwanegu ynghylch aelodau yn cael eu diweddaru gyda hyfforddiant llywodraethu.
**Gweithredu**: Rheolwr Cyllid **Erbyn**: 22 Gorffennaf 2015

## 11. Adroddiad Blynyddol Drafft Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg 2014-15

11.1 Ystyriwyd yr Adroddiad Blynyddol drafft gan y Pwyllgor. **Cytunwyd** y dylai manylion pellach gael eu hychwanegu at Adran 3 yn amlinellu rôl y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg o ran ymgynghori gyda chyrff archwilio allanol a chael eu barnau, gan nad oedd CFfDLC yn gallu gwneud hynny.
**Gweithredu**: Rheolwr Cyllid **Erbyn**: 28 Chwefror 2015

11.2 Cytunwyd y dylai pwynt arall yn nodi effaith y Pwyllgor ar CFfDLC gael ei ychwanegu i gynnwys yr awgrym fod CFfDLC yn cynhyrchu siart trefniadau fframwaith sicrwydd llywodraethu a'i gynnwys yn eu Datganiad Llywodraethu.
**Gweithredu**: Rheolwr Cyllid **Erbyn**: 28 Chwefror 2015

## 12. Datganiad Llywodraethu Drafft 2014-15

12.1 Nododd y Pwyllgor y Datganiad Llywodraethu drafft a bod y siart trefniadau fframwaith sicrwydd llywodraethu newydd wedi'i gynnwys yn Atodiad A.

12.2 **Cytunwyd** y dylai'r brif risg a amlinellwyd yn yr adran risg gael ei hail-eirio i'w chryfhau o ystyried graddau ansicrwydd y dyfodol i waith CFfDLC.
**Gweithredu**: Rheolwr Cyllid **Erbyn**: 28 Chwefror 2015

## 13. Adroddiad Rheoli Risg

13.1 Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad, y gofrestr bresennol a'r polisi. Adroddwyd bod CFfDLC wedi cynyddu graddfa risg weddilliol CR7 yn ddiweddar o 15 i 20 i adlewyrchu'r datblygiadau diweddar gyda Bil Llywodraeth Cymru a'r Papur Gwyn. Adroddwyd hefyd y byddai mater yr holiadur rhanddeiliaid ym mis Mawrth ar gyfer terfyn arolwg etholiadol Sir Benfro yn cau'r bwlch sicrwydd sy'n weddill ar Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd.

## 14. Cofrestr Risg Pensiynau CFfDLC

14.1 Nododd y Pwyllgor Gofrestr Risg Pensiynau CFfDLC a oedd wedi'i hadolygu a'i hailddrafftio o ganlyniad i argymhelliad yr archwilwyr mewnol. Nodwyd hefyd fod risg newydd yn ymwneud â phensiynau wedi'i hychwanegu at Gofrestr Risgiau Corfforaethol CFfDLC fel y cynigiwyd gan argymhelliad yr archwilwyr.

**15. Adroddiad Monitro'r Gyllideb.**

15.1 Nodwyd yr Adroddiad ar y Gyllideb a'r newid a wnaed i gategorïau'r gyllideb ar ôl ildio cyllid i Lywodraeth Cymru.

**16. Prawf ar Gynllun Parhad Busnes CFfDLC**

16.1 Nododd y Pwyllgor ganlyniad prawf CFfDLC o'i Gynllun Parhad Busnes a gynhaliwyd ym mis Mai 2014, a'r newidiadau arfaethedig.

**17. Papur Gwyn Llywodraeth Cymru ar Gomisiwn Staff i'r Gwasanaethau Cyhoeddus**

17.1 Nododd y Pwyllgor fod CFfDLC wedi ymateb i Bapur Gwyn Llywodraeth Cymru a daeth i'r casgliad nad oedd cynnwys CFfDLC ar y rhestr o gyrff sy'n dod o dan gylch gwaith Comisiwn y Staff yn berthnasol mewn gwirionedd, gan fod y rhan fwyaf o weithdrefnau staffio CFfDLC yn debyg i rai'r Gwasanaeth Sifil.

**18. Cynllun Corfforaethol CFfDLC**

18.1 Ystyriwyd Cynllun Corfforaethol newydd CFfDLC gan y Comisiwn. Nodwyd y byddai angen i'r Cynllun gael ei ddiwygio ymhellach yng ngolau Bil Llywodraeth Leol (Cymru) a'r rhaglen arolygiadau newydd.

**19. Rhoddion a Lletygarwch – Adroddiad a Datganiadau**

19.1 Nododd y Pwyllgor y datganiadau diweddar yn deillio o bresenoldeb y Prif Weithredwr ac Aelodau yn y cyfarfod Rhwng Comisiynau a gynhaliwyd yng Nghaeredin ym mis Tachwedd.

**20. Cwynion**

20.1 Nododd y Pwyllgor nad oedd unrhyw gŵynion wedi'u derbyn ers yr adroddiad diwethaf.

**21. Adroddiad Chwythu'r Chwiban a Thwyll**

21.1 Nododd y Pwyllgor na fu unrhyw achosion o chwythu'r chwiban na thwyll ers yr adroddiad diwethaf.

## 22. Adroddiad Diogelwch Data TG

22.1 Nododd y Pwyllgor na fu unrhyw ddigwyddiadau'n ymwneud â diogelwch data ers yr adroddiad diwethaf.

## 23. Unrhyw Fusnes Arall [Gadawodd Kath Rankin y cyfarfod]

### Archwilio Mewnol

23.1 Adroddwyd bod CFfDLC wedi ymgymryd â thendr yn ddiweddar ar gyfer darparu gwasanaethau archwilio mewnol. Y terfyn amser ar gyfer derbyn tendrau oedd 16 Chwefror 2015 a bydd y bwrdd tendrau yn cael ei gynnal ar 26 Chwefror 2015.

### Archwilio Allanol

23.2 Adroddodd John Golding fod Swyddfa Archwilio Cymru wrthi'n ail-dendro ar gyfer partneriaid i ymgysylltu ag archwilio a fyddai'n effeithio ar b'un a fyddai Grant Thornton yn parhau fel archwilwyr allanol CFfDLC. Nododd y Pwyllgor y gallai hyn o bosibl arwain at newid cydamserol i'r archwilwyr mewnol ac allanol.

## 24. Dyddiadau Cyfarfodydd y Dyfodol.

24.1 Gofynnwyd am i ddyddiad cyfarfod mis Gorffennaf gael ei newid gan nad oedd un aelod yn gallu mynychu ar y dyddiad a gytunwyd yn wreiddiol, sef 15 Gorffennaf 2015. Cytunwyd y dylai dyddiad cyfarfod mis Gorffennaf gael ei newid i 22 Gorffennaf 2015 ac y byddai'r dyddiad diwygiedig hwn yn cael ei gylchredeg.
**Gweithredu**: Rheolwr Cyllid **Erbyn**: 28 Chwefror 2015